YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1896. [RHIF 104

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

EGWYDDORION YR UNDODIAID.

MR. GOL.,—Yn y *Tarian* am Mai 14, 1896, cyhoeddwyd "Datganiad o Egwyddorion a Broffesir gan yr Undodiaid," ac y mae MYFYRIWR IEUANC yn un o'r colegau wedi anfon i mi yr adolygiad isod. Credaf y bydd yn ddyddorol i'r darllenwyr ac yn werth eu sylw manwl. Rhodded rhywun ei farn arno, a byddaf ddiolchgar. —Yr eiddoch, &c.,

HERMES TRISMEGISTOS.

——

"Nid wyf fi yn nesu at *yr* 'Undodwyr,' ond yr wyf yn Undodwr mewn ystyr—yr ystyr Ysgrythyrol can belled ag yr wyf yn gallu amgyffred pethau. Credaf fod erthyglau eich ffydd, yn ol y datganiad a nodwyd, yn dda ac yn Ysgrythyrol, can belled ag y maent yn myned; ac ar yr un pryd, i mi, y mae rhywbeth yn eisieu ynddynt. Pe gellid ychwanegu y rhywbeth hwnw atynt, credaf y byddai yn foddion i gyfanu bwlch mawr mewn cadwyn a gyssylltai enwadau 'Cred.' Y peth yr wyf yn cyfeirio ato yw *Dwyfoldeb* Crist. Nid oes eisieu i Drindodwr gredu yn yr athrawiaeth o dri Pherson yn y Drindod, er mwyn credu fod Crist yn Dduw. O'r ochr arall, nid wyf yn meddwl fod eisieu i Undodwr ymadael â'i Undodiaeth er mwyn credu yr un peth. Yr wyf yn methu gweled fod yna unrhyw anhawsder ar ffordd Undodwr, gan ei fod yn credu yn Nuw'r Tad fel awdwr y greadigaeth a bywyd dyn, ac fel un sydd yn caru dynol ryw, i gredu hefyd y gallai Duw felly wisgo natur dyn a byw bywyd dyn mewn cnawd. Oni fyddai hyny ynddo ei hun yn ddull effeithiol, mewn gwirionedd, y dull mwyaf effeithiol i sicrhau iach-

awdwriaeth y byd? Oni fyddai hyny yn bossibl i Dduw Hollalluog? A chan Ei fod hefyd yn llawn cariad a gras, onid yw yn gredadwy iddo wneuthur hyny? Fy safbwynt i yn hollol ydyw mai un Duw sydd, i'r Duw hwnw ddatguddio Ei hun mewn creadigaeth a rhagluniaeth, mewn iachawdwriaeth, a'i fod yn parhau i ddatguddio ei Hun mewn yspryd sancteiddiad yn yr Eglwys. Mewn creadigaeth a rhagluniaeth, y mae yn Dad; mewn cnawd yn Nghrist, y mae yn Waredwr yn llawn gras a gwirionedd; ac yn yr Eglwys yn y gwaith o berffeithio a sancteiddio, y mae yn gwisgo'r cymmeriad o Yspryd Glân.

"Gyda golwg ar yr Iesu, nid wyf yn meddwl fod yna unrhyw anhawsder i edrych arno fel mab Duw, ac hefyd fel 'Duw Fab,' os wyf yn deall yn iawn yr ystyr roddir genych i'r term olaf. Os daeth Duw yn ddyn o gwbl, daeth yn ddyn gwirioneddol, ac o safbwynt y dyn gellir edrych arno fel mab Duw, tra y gellir edrych arno o safbwynt Duw fel Duw fab.

"Credaf mai y gwahanol agweddau uchod, yn mha rai y mae Duw wedi datguddio ei Hun, sydd yn cyfrif am y ffaith fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn siarad am Dad, Mab, ac Yspryd Glân, ac hefyd wedi arwain i'r casgliad o dri pherson yn y Duwdod. Nid wyf fi yn credu mewn tri pherson, ac nid wyf yn meddwl fy mod yn colli dim drwy hyny, ond yr wyf yn credu y byddai Undodwr, o'r ochr arall, yn enill nerth mawr pe gallai ddyfod i gredu fod yr Iesu yn Dduw a ymddangosodd yn y cnawd, ac i mi y mae pob peth yn cyd-dystiolaethu mai 'Gwir yw y Gair, ac yn haeddu pob derbyniad, &c.'

"Nid wyf yn meddwl fy mod yn gwahaniaethu rhyw lawer oddiwrthych yn fy ngolygiadau am y Beibl. Nid yw fy ngolygiadau ar gospedigaeth dragywyddol yn rhyw sicr iawn, felly ni ddywedaf ddim.

Yr wyf wedi darllen llawer yn bur helaeth ar wahanol bynciau er pan wyf yn y coleg, ac wedi bod lawer gwaith yn teimlo fy ffordd yn y niwl. Cefais fy hun yn ddiarwybod bron yn colli fy ngafael yn y golygiadau a dderbyniais trwy 'draddodiad y tadau.' Teimlwn, er hyny, nad oedd y cwestiynau a gyfarfyddwn o bryd i'w gilydd yn newydd, yr oeddynt oll wedi awgrymu eu hunain i mi o dan wahanol amgylchiadau trwy y blynyddoedd er pan yn hogyn, a bu syrthio yn ol ar 'awdurdod' (Pabyddol, os mynwch) yn felus lawer gwaith. Yr wyf yn dyfod i gredu er hyny, fod mwy yn yr 'hen athrawiaethau' nag oeddwn yn feddwl un adeg. Y mae yn ddiamheu fod yna ryw haen o wirionedd ynddynt. Y mae yn rhaid i ddynion ffaeledig wrth ffurf; y drwg yw eu bod yn aros gyda 'ffurf yr athrawiaeth' ac yn methu amgyffred y gwirionedd byw sydd o dani.

"Y mae yna ysprydion ystormydd yn yr *African Farm*, gan Olive Schreiner. Yr oeddwn yn teimlo '*Donovan* a *We Two*, dau o lyfrau Edna Lyall yn felus ar ei ol, &c., &c."

Y BRIF YSGOL GYMREIG.

Bydd y 26ain o Fehefin, 1896, yn ddydd a hir gofir gan bob Cymro sydd yn caru llwyddiant ei genedl (a pha Gymro sydd heb fod ?) ar gyfrif y ffaith mai ar y dydd hwn y gwelodd y genedl ei breuddwyd am Brif Ysgol o fewn i'w thiriogaethau ei hun wedi ei gyflawn sylweddoli. Mae gan bob un o'r cenedloedd ereill, sydd yn gwneyd i fyny y Deyrnas Gyfunol, eu Prif Ysgolion er's amser maith. Ac y mae yn anhawdd cyfrif sut y mae Cymru wedi cael ei hesgeuluso cyhyd ; o herwydd nid oes gan un genedl fwy o serch at addysg, nac wedi gwneyd mwy o aberth trwy'r blynyddau er cael addysg i'w phlant, a'r genedl Gymreig. Ac etto, mae wedi gorfod aros hyd yn awr heb gael yr hyn ag oedd y cenedloedd ereill wedi ei gael, a'r hyn oedd ganddi gymmaint o hawl i'w gael a hwythau. Ond, efallai na ddylid achwyn ; ac nid yw o'r dyben i achwyn yn awr ychwaith. Tebyg fod yr hen ddywediad mai'r "hwn sydd yn ceisio sydd yn cael" mor wir yn y cyssylltiad hwn ag mewn cyssylltiadau ereill. Fodd bynag, yr hyn sydd yn gweddu i ni yn awr yw cyd-lawenhau â'r gweddill o'n cyd-genedl wrth weled y llwyddiant sydd wedi coroni ymdrechion carwyr addysg i sicrhau y gyfundrefn addysgol oreu i'n plant, a rhoi o fewn eu cyrhaedd yr un manteision a chenedloedd ereill y Deyrnas Gyfunol.

Mae pob un o'n darllenwyr sydd yn teimlo dyddordeb mewn materion addysgol, yn enwedig y rhai o honynt sydd yn teimlo dyddordeb mewn addysg uwchraddol, eisoes yn gyfarwydd â hanes y mudiad er sicrhau Prif Ysgol i Gymru. Mae hanes dechreuad a chynnydd y Brif Ysgol yn Aberystwyth yn darllen fel rhamant. Nid oes dim cyffelyb iddo, ni a gredwn, mewn cyssylltiad ag un sefydliad athrofaol arall yn un wlad. Mae'r syched cenedlaethol am addysg uwchraddol a roddodd fodolaeth iddo ar y cyntaf, yr aberth sydd wedi cael ei wneyd gan y genedl fel cyfangorff er ei gynnal trwy'r blynyddau, pan nad oedd yr un sylw yn cael ei wneyd o hono gan y Llywodraeth, yr anhawsderau aml—ac weithiau braidd anorchfygol—y mae wedi gyfarfod a hwynt trwy'r blynyddau —mae'r ffeithiau hyn yn fwy dyddorol nâ dim a ysgrifenwyd erioed mewn un chwedl, ac i'r annghyfarwydd â'r genedl Gymreig, byddent yn ymddangos braidd yn anmhossibl, heb un bodolaeth iddynt ond yn ymenydd yr hanesydd.

Amser a ddengys beth fydd yr effaith a ga sefydliad Prif Ysgol ar y genedl, yn faterol, yn feddyliol, ac yn foesol. Credwn ni mor gryf yn nylanwad uchel addysg, fel y mentrwn broffwydo dyfodol dysglaer. Mae'r hen syniadau a ddelid unwaith am addysg yn cyflym gilio o'r golwg. Dywedai'r enwog Ddr. Johnson, pe y gwnai pob un ddysgu darllen, na cheid neb i weithio ar y tir mwyach. Mae llawer o'i frodyr i'w cael o hyd : dynion ydynt am gadw eu cyd-ddynion mewn anwybodaeth, gan ddal y syniad cyfeiliornus am addysg a'i heffaith a ddelid gan y gwr enwog uchod. Dywed ereill

drachefn na ddylai plant tlodion gael addysg uwch nag a fydd yn eu haddasu i wneyd dyledswyddau cyffredin bywyd; na ddylent gael cyfleusderau i gael cystal addysg a'r cyfoethog. Mae'r syniadau hyn am addysg, ac am gyfleusderau i gael addysg bron bod yn mysg y pethau a fu; a haeddant fod yn mysg y pethau a fu; maent yn hollol allan o le yn yr oes hon. Bellach, yr amcan ddylai fod i roddi'r addysg oreu o fewn cyrhaedd pawb, a rhoddi yr un cyfleusderau i bawb i gael yr addysg oreu.

Mae un peth neillduol i sylwi yn y mudiad hwn am addysg uwchraddol yn Nghymru: ynddo gwelwn y genedl Gymreig ar ei goreu. Yr yspryd ag sydd wedi bod yn brif felldith Cymru yn y canrifoedd diweddaf yw'r yspryd sectol ac ymbleidiol sydd wedi bod yn meddiannu ei phobl mor drylwyr, fel yr oedd y genedl yn rhanedig i fânbleidiau a sectau, yr hyn oedd yn gwneyd cyd-weithrediad cenenedlaethol mewn unrhyw achos yn anmhossibl bron. Yr oedd sectyddiaeth yn gwthio ei phen i fewn i bob man; ond yn y mudiad hwn am addysg uwchraddol, mae'r yspryd hwn wedi ei gadw allan yn weddol drylwyr. Mae tlodion a chyfoethogion, Cydffurfwyr ac Annghydffurfwyr, Rhyddfrydwyr a Cheidwadwyr, wedi cydweithio yn galonog er ennill i'w gwlad y fraint ag oedd wedi ei chadw oddiwrthi cyhyd; ac i'r undeb hwn cydrhwng gwahanol bleidiau a dospeirth o'r boblogaeth yr ydys, yn ddiamheu, i briodoli y llwyddiant sydd wedi canlyn y mudiad.

Yn awr, mae gan bob bachgen a merch ieuanc yn Nghymru fantais, os yn dewis, i sicrhau iddynt eu hunain yr addysg oreu, ac i fynu iddynt eu hunain y cwrtaith hwnw sydd yn gwneyd bywyd yn gymmaint mwy llawn o ddyddordeb ac o wir bleser. Nid yw'r Brif Ysgol etto ond megys yn ei babandod, ac nis gellir (ac ni ddylid) dysgwyl llawer oddiwrthi ar unwaith. Rhaid iddi wrth amser, fel pobpeth arall, cyn y daw i'w chyflawn faintioli; ond trwy ddadblygiad graddol o'r gyfundrefn sydd yn awr wedi ei sefydlu, a thrwy fod awdurdodau'r Brif Ysgol yn ystyried lles y werin o flaen dim arall, fe ddaw'r amser pan y bydd ei dylanwad i'w deimlo gan bob dyn a benyw trwy'r wlad. Ni ddywedwn fod amser i dd od pan y bydd pob plentyn o Gymro i gael mwynhau y fraint o gael addysg Athrofaol. Byddai hyny yn ddymunol, mae'n wir; ond y mae yn anymarferol, er hyny, o leiaf am amser maith etto. Ond gall awdurdodau'r gwahanol Athrofeydd, sydd yn gwneyd i fyny'r Brif Ysgol, wneyd llawer tuag at ddwyn yr addysg uwch a gyfrenir o fewn i'w muriau o fewn cyrhaedd pob dyn a benyw sydd yn dymuno hyny.

Yr ydym yn cydlawenhau ag ereill o'n cydgenedl ar sefydliad y Brif Ysgol yn ein plith, ac yn dymuno llwyddiant iddi yn ei hymdrech i ddwyn addysg uwchraddol o fewn cyrhaedd holl blant y genedl.

ARGUS.

CWYMP LLEWELYN.

Mae gwlad y Brythoniaid heb gân nac awenydd,
A chestyll gwroniaid heb wledd na llawenydd;
Rhyddid sy'n nychu heb dant ar y delyn
O herwydd bradychu Tywysog Llewelyn.

Yn brudd a lluddedig 'nol ymgyrch llafurus,
A phen gogwyddedig, a mynwes ddolurus,
A rhwymyn eu dwylaw yn ngafael eu gelyn,
Cymru sy'n wylaw ar garnedd Llewelyn.

Doi'r estron ryfelwyr fel cenllif y Gauaf,
Neu dyrfa medelwyr yn nhymhor cynhauaf,
Ac fel mewn dryghinoedd y cuddir haul melyn
Yn nhrwst y byddinoedd bradychwyd Llewelyn.

Robin Ddu Eryri, 1856.

DR. KITTO.

Un o'r Traethodynau (tracts) a gyhoeddwyd gan y Parch. W. B. Hughes, pan oedd yn weinidog yn Mhenmaenmawr. A oes rhywun a wyr pa rai ereill a gyhoeddwyd ganddo? R.J.J.

Nis gellwch fyned lawer yn is nâ'r *Workhouse*; ac etto, dyma hanes un a ddyrchafodd ei hunan hyd y nod o'r trueni yna, ac a ddaeth yn ŵr dysgedig ac anrhydeddus.

Ganed John Kitto dros 60 mlynedd yn ol yn Plymouth. Tlawd oedd arno pan yn ieuanc, oblegyd meddwyn oedd ei dad, ac ef ei hun yn blentyn egwan, addasach i aros yn dawel gartref nag i fyned allan i chwareu gyda'r plant. Pan yn bedair blwydd oed, cymmerodd ei famgu ef o'i gartref anniddos ati ei hun. Caruaidd a thirion oedd hi; gwraig fwynaidd, grefyddol, hefyd, i'r hon yr ydoedd yn ddyledus i raddau mawr am yr egwyddor uchel a'i hynododd trwy ei fywyd. Nis gallasai o herwydd ei thlodi roddi iddo lawer o ysgol. Cymmaint ag a gafodd oedd rhwng saith a deg oed. Dysgodd ddarllen ac ysgrifenu ychydig. Yr oedd ei awydd am ddarllen mor gryf, fel y mynai lyfrau yn mhob dull possibl. Benthycai hwynt, a safiai bob dimai a allai er eu prynu.

Pan tua deg oed tarawyd ei famgu yn glaf o'r parlys, ac ni fedrai mwyach wneyd iddo gartref; felly gorfu iddo fyned i weithio at ei dad, yr hwn oedd wedi darostwng ei hun trwy ei oferedd o fod yn feistr maswniaid i fod yn weithiwr hur.

Ar ol ei ddydd gwaith treuliai John ei nosweithiau yn ei ystafell yn darllen wrth oleuni y coed oedd wedi gasglu yn y dydd.

Pan yn ddeuddeg oed, aeth un diwrnod gyda'i dad, yr hwn oedd yn gosod tô newydd ar ben ty. Wrth ddringo i fyny yr ysgol â llwyth o lechi *(slates)*, yr oedd tri o bethau ar ei feddwl: llyfr oedd wedi hiraethu llawer am ei ddarllen, yr hwn oedd newydd gael ei fenthyg; siaced newydd oedd ei famgu yn ei wneuthur iddo; a morwr ieuanc oedd yn ei adnabod, yr hwn oedd yn gorwedd yn farw yn y ty odditano. Dyrysodd yr olaf ychydig ar ei feddwl; a phan yn rhoddi cam o'r ysgol i'r tô, "collodd ei droed," a syrthiodd i'r llawr cerryg o uchder pymtheg troedfedd ar ugain. Ni thorodd un aelod, ond bu yn hollol ddideimlad am bythefnos, ac ni allai ymadael o'i wely am bedwar mis. Ond nid dyna'r gwaethaf: pan ddaeth ato ei hun, gofynodd am y llyfr oedd yn feddwl am dano pan y syrthiodd. Edrychai y rhai oeddent o amgylch ei wely ar eu gilydd. Paham na ddywedent? Yr oeddent yn dywedyd, ond ni chlywai efe hwynt. "Dywedwch," meddai; "paham na ddywedwch?" Yna cymmerodd un o honynt *slate*, a darllenodd y bachgen druan y geiriau arswydus, "*Yr ydych yn fyddar!*" Er iddo fyw dros un flynedd ar bymtheg ar ol hyn, ni chlywodd unrhyw swn byth wed'yn. Trwy ei anallu i glywed ei lais ei hun, aeth yn raddol i fethu siarad yn eglur, fel na allai neb ei ddeall ond y sawl a arferent fod gydag ef. Rhaid oedd i'r sawl a fynent siarad ag ef wneyd hyn trwy'r bysedd, neu ysgrifenu.

Pan ddaeth y truan unig i'w iechyd arferol etto, teimlai yn ddwys pa mor wael oedd ei sefyllfa. Gweithio gyda'i dad nis gallai mwyf ac i brynu llyfrau nid oedd arian yn ei feddiant. Arferai rodio ar hyd y tywod ar lan y môr, gan edrych am dameidiau o raffau neu haiarn i'w gwerthu; ac un tro ennillodd bedair ceiniog mewn un wythnos!! Treiodd wedi hyn ennill ychydig arian trwy ysgrifenu rhybuddion, "*Lodgings to let*," &c.; ond o'r diwedd, trwy ddiofalwch ei dad, aeth mor druenus ei gyflwr—crwydryn hanner-newynog yn ystrydoedd Plymouth—fel y cymmerwyd ef i'r *Workhouse*. Yr oedd hyn yn brawf caled iddo, a gwasgai ar ei feddwl gymmaint, nes y meddyliodd unwaith dreio dianc oddiyno. Ond derbyniodd gymmaint o garedigrwydd, fel y daeth yn fuan i gymmodi yn well â'i sefyllfa. Gosodwyd ef dan ofal rhyw un i ddysgu gwneyd esgidiau, a gweithiodd mor egniol wrthi, fel y mae yn cofnodi yn ei ddyddiadur iddo wneyd wyth pâr ar ugain yn ystod un flwyddyn, tra yn rhoddi yr oll o'i amser hamddenol i ddarllen ac ysgrifenu. Mewn oddeutu dwy flynedd ar ol hyn ymadawodd o'r *Workhouse*, ac aeth yn brentis i grydd. Credai yn awr ei fod wedi sefydlu ei hun yn y byd; ond cafodd allan ei bod hi yn waeth arno nag erioed. Creadur creulawn, barbaraidd, oedd ei feistr, yr hwn a ymddygai tuag ato yn y modd mwyaf ciaidd. Gorfodai y byddar tlawd yn aml i weithio pedair-ar-ddeg ac un-ar-bymtheg o oriau yn y dydd, a churai ef yn ddidrugaredd. Mewn gair, yr oedd ymddygiad y dyn hwn tuag ato mor greulawn, fel y cymmerwyd ef oddiwrtho yn lled fuan, a

chafodd ei ail-dderbyn i'r *workhouse*. Arosodd Kitto yma oddeutu blwyddyn drachefn, gan ddefnyddio ei holl amser hamddenol er hunan-adeiladaeth, pan ar ryw ddiwrnod y cyfarfu â boneddwr mewn rhyw *shop*, yr hwn a gafodd ei ddenu i gymmeryd sylw o hono o'r hyn a glywodd ac a welodd, fel y gwnaeth ef a boneddwyr ereill ei gymmeryd o'r *workhouse*, a chawsant ganiatad iddo fyned i ddarllen i'r *Public Library*. Yr oedd hyn yn gyfnewidiad hyfryd yn ei sefyllfa, ac am yn agos i flwyddyn gwnaeth ddefnydd da o'r cyfleusdra hwn i gyrhaedd gwybodaeth. Symmudodd ar ol hyn i Exeter, at deulu boneddwr o'r enw Mr. Groves, yr hwn oedd yn selog iawn gyda gwaith y Genadaeth. Yn nghyfeillach Mr. Groves cafodd teimladau crefyddol Kitto eu cryfhau yn fawr, a thrwyddo ef daeth i gyssylltiad â'r Gymdeithas Genadol fel argraffydd. Aeth i fyw i Lundain, a phob awr y gallai hebgor oedd fel arfer yn cael ei threulio mewn darllen ac ysgrifenu.

Yr oedd gan y Gymdeithas Genadol argraffwasg yn ynys Malta, lle yr oeddent yn argraffu traethodau i'w defnyddio gan y cenadon yn y gwledydd dwyreiniol. Yma y danfonwyd Kitto, a chafodd lawer o fwynhad a dyddordeb yn yr ynys a'i thrigolion. Pan aeth i ynys Malta, yr oedd yn edrych yn mlaen at yr amser dedwydd i ddyfod, pan y byddai i gael ymuno mewn priodas â merch ieuanc oedd yn dyner garu; ond ar ol rhai misoedd wedi iddo adael cartref, clywodd er mawr siomedigaeth ei bod wedi priodi un arall. Ergyd trwm oedd hwn, ac achosodd iddo gymmaint o ofid nes aeth yn glaf iawn, yn analluog i gyflawni ei waith, ac o ganlyniad collodd ei sefyllfa, a dychwelodd i Loegr.

Mewn ychydig amser wedi ei ddychweliad, penderfynodd ei hen gyfaill Mr. Groves fyned yn genadwr i'r Dwyrain, a chan fod Kitto mor selog dros yr achos, ac mor hoff o Mr. Groves, derbyniodd y cynnyg a wnaeth o fyned gydag ef fel athraw i'w fechgyn. Cafwyd ymdaith ddyddorol trwy Rwssia i Bagdad. Gwelodd Kitto lawer o bethau ag oedd yn hollol ddyeithr a newydd iddo, er fod arferion y bobl, lawer o honynt, yn hen iawn. Er enghraifft, gwelodd ddwfr yn cael ei godi trwy offerynoliaeth rhod, ac ychain yn dyrnu yr ŷd, arferion mor hen fel y maent yn cael eu coffhau yn y Beibl. Preswyliodd Kitto yn Bagdad ddwy flynedd. Yn ystod yr amser hwn ymwelodd y pla â'r dref ddwywaith. Bu unwaith yn warchaeedig, ac unwaith bu dan lifeiriant; ond er hyn i gyd hoffodd y lle yn fawr, ac edrychai yn ol gyda hyfrydwch ar y diwrnod hwnw pan aeth yno, o herwydd iddo ddysgu cymmaint na ddaeth i'w feddwl am danynt erioed o'r blaen. Treuliodd naw mis ar ei daith tuag adref, yr hon oedd trwy Persia a Thwrci. Yr oedd hyn yn gyfleusdra arall i ychwanegu at ei wybodaeth, a defnydd da a wnaeth o hyny.

Wedi cyrhaedd Llundain, yr oedd yn rhaid iddo ystyried beth a wnai tuag at ei gynnaliaeth. Gan ei fod wedi darllen cymmaint, ac wedi sylwi mor fanwl tra yn teithio mewn gwledydd tramor, yr oedd yn meddiannu gwybodaeth helaeth iawn. Gan ei fod yn

fyddar, yr oedd dan orfod ysgrifenu llawer. Dyma'r unig gyfrwng oedd ganddo i ymddyddan â'i gyfeillion, a thrwy hyn daeth i ysgrifenu yn dda a chyflym. Hyn a greodd ynddo awydd i ddyfod yn awdwr, yr hyn, er mai ychydig o dâl a dderbyniai, oedd yn unol â'i chwaeth, ac o bossibl hefyd y teimlai fod ganddo rywbeth yn werth i'w glywed.

Dechreuodd trwy gyfranu i'r *Penny Magazine*, a chyhoeddiadau ereill, ac ar ol hyn ysgrifenodd lyfr i blant ar Persia. Oddeutu yr amser hwn, priododd foneddiges yr hon oedd yn berchen ar gymhwysderau neillduol i un yn ei sefyllfa ef, a bu yn gynnorthwy mawr iddo yn ei ymchwiliadau. Yn y cyfnod hwn yr ysgrifenodd y llyfrau hyny y rhai ydynt wedi rhoddi iddo y fath enwogrwydd—ei "Sylwadau ar y *Pictorial Bible*," "Hanes Palestina," a'i "*Cyclopædia of Biblical Literature*," yn nghyd â gweithiau ereill llai nodedig. Gallem resu holl weithiau mwyaf gwerthfawr Dr. Kitto mewn ychydig amser, ond costiodd iddo ef lawer blwyddyn o lafur caled i'w hysgrifenu. Ac yn yr amser hwn yr oedd ei deulu yn lluosogi yn gyflym, a phob pig yn dysgwyl wrtho ef yn unig am damaid. Yr oedd tlodi yn aml yn ei fygwth; ac o'r diwedd gwanychodd ei iechyd dan bwys ei lafur caled. Ond daliodd i fyny yn wrol fel na fedr neb ond cristion ei wneyd. O'r diwedd daeth ei ffryndiau i'w gynnorthwyo, ac er mwyn dyogelu bywyd mor werthfawr, penderfynasant roddi modd cynnaliaeth iddo tra yr aethai oddicartref i newid yr hin ac i orphwys, ond daethant yn rhy ddiweddar. Bu farw yn Canstatt yn Germani ar y 25ain o Dachwedd, 1854, yn 50 mlwydd oed.

Dechreuodd fywyd yn dlawd ac anadnabyddus: bu farw mewn anrhydedd a pharch. Gwnaed ef yn Athraw Duwinyddiaeth *(Doctor of Divinity)*, a rhoddodd y llywodraeth iddo *bension* o gan' punt y flwyddyn. Buasai hyn yn anrhydeddus iddo pe b'ai wedi cael pob mantais; pa faint mwy i un a ddechreuodd fywyd yn egwan ac afiach, ac wedi ei amddifadu o un o'r synwyrau mwyaf eu gwerth! Pwy a eistedda i lawr ac a ddywed nas gall ef wneyd dim a'r fath esiampl o'i flaen? Diolch i Dduw am y fath ddynion; maent yn dywedyd wrth bob un o honom yn ein gwahanol anhawsderau—Cymmer gysur—na ddigalona—"dring i fyny!"

SYLWADAU AR BWNC ADDYSG.

Y MAE cwestiwn addysg gyda ni yn wastadol, ac y mae yn amheus genym a fydd unrhyw gyfnod yn hanes dyn ar y ddaear pryd y gellir dweyd na fydd yn rhaid iddo wrtho. Nid oes dim yn wrthun neu annaturiol yn hyn. Yn ein barn ni, creadur i fyned ar gynnydd yn ddiddiwedd yw dyn, ac yn ngwyneb y ffaith mai swydd uchaf addysg ydyw galw allan y galluoedd hyny o eiddo y meddwl ag sydd yn gwneyd dyn yn fôd cynnyddol, nis gellir ysgoi y casgliad y

bydd yn rhaid i ni wrth addysg mewn rhyw ffurf neu gilydd tra bydd dyn yn ddyn.

Yn wir, yr ydym bawb o honom yn ddwfn yn nghrafangau yr athrawiaeth hon eisoes. Edrycher ar fywyd oddiar y safle y mynir, a cheir gweled fod holl ogwydd cymdeithas yn nghyfeiriad addysg. Ai ar y graig hon yr aeth Mesur Addysg y Llywodraeth bresennol yn deilchion? Wrth gwrs, nid oes sicrwydd gyda golwg ar yr achos gwirioneddol; ond nid oes angen cweryla gyda golwg ar hyny tra byddo y ffaith bwysicach o fethiant y Mesur yn ein meddiant. Nis gall pleidwyr addysg sylweddoli llai nag ymddedwyddoli yn nhranc y Mesur hwn; oblegyd nid mesur addysg mo hono, ond "rhywbeth" i eangu cortynau preswylfeydd clerigiaeth; "rhywbeth" i wneyd i ffwrdd â'r hyn unwaith a ddesgrifid mor hyawdl gan Arweinydd y Ty fel yn *intolerable strain* ar yr Ysgolion Gwirfoddol; "rhywbeth" i attegu neu lesteirio yr Ysgolion Byrddol *(to capture the Board Schools—Lord Salisbury)*; "rhywbeth" nad oedd hyd y nod ei gefnogwyr yn gwybod beth. Pa ryfedd fod peth mor fwys (mwys yn ei fanylion, nid yn ei amcan) wedi myned i deithio'r llwybr, ar hyd yr hwn nid yw pethau cyffelyb yn dychwelyd. Ond rhaid i ni gadw ar gof nad yw yr yspryd hwn o anfoddogrwydd yn nglyn â chwestiwn addysg ddim wedi myned i deithio, ac nid yw yn debyg o fyned chwaith, tra pery y cyssylltiad gwenwynig presennol rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth.

Dyma wreiddyn y mater, ys dywed Mari Lewis wrth Bob, ac hyd nes y byddo wedi ei dori—ei ysgaru yn llwyr, ni fydd genym obaith am ymwared oddiwrth yr anfoddogrwydd presennol yn nglyn ag addysg; ïe, yr anfoddogrwydd hwn ag sydd wedi cynhyrfu y wlad hyd ei gwaelodion, a chwedi peru iddi roddi ei throed i lawr yn erbyn yr egwyddor hon o eiddo un dosparth i besgi yn barhaus ar draul dosparthiadau ereill. Y mae yr Eglwyswr, dybiwn ni, er hyny, yn eithaf cysson ag ef ei hun, ac nid yw ei ymddygiad yn awr, yn gystal ag yn y gorphenol, ond ffrwyth neu ganlyniad naturiol *(corollary)* ei berthynas â'r Wladwriaeth; tra, o'r tu arall, y mae'r Annghydffurfiwr yn llawn mor gysson wrth ei wrthwynebu. Nid yw yn bossibl i'r wlad fod yn rhy lygad-agored i wylied yn barhaus symmudiadau llechwraidd yr Eglwyswr, yr hwn sydd bob amser yn hiraethu ac yn dyheu am oruchafiaeth a rhagorfraint. Dyma'r yspryd ffiaidd, hunanol, ymhongar, a chellweirus, sydd wedi ei nodweddu bob amser. Dyma'r yspryd roddodd fodolaeth i Annghydffurfiaeth ar y cyntaf. A hwn y mae wedi gorfod ymgodymu ar hyd y blynyddoedd. Dyma'r yspryd oedd wrth wreiddyn yr erlidigaethau crefyddol yn nghyfnod adferiad y freniniaeth dan Siarl yr Ail, ac a fu yn offerynol i sefydlu y *Conventicle*, y *Five Mile Act* a'r llwon. Ie, dyma'r yspryd amddifadodd Gymru o'i haddysg uwchraddol hyd at y chwarter canrif diweddaf, ac a gauodd ddrysau y Prif Ysgolion yn ei herbyn yn Lloegr; ond y mae yn ddywenydd genym allu dweyd fod *Gallant Little Wales* wedi meddu ar ddigon o elfenau bywyd i or-fyw yr annghrist hwn. Nid oes un rhan o'r

Ymherodraeth Brydeinig wedi llafurio dan fwy o anfanteision addysgawl na Chymru. Yr ydym yn edrych yn ol dros lechres hanesiaeth, ac yn cael fod yr Ynys Werdd, yr Alban, a Lloegr, yn y mwynhad o'u haddysg uwchraddol er ys cannoedd o flynyddoedd, tra y gadawyd Cymru fâd i fyw hyd 1872 ar ei hadnoddau ei hun—yr Ysgol Sabbothol a'r Eisteddfod. Bellach, yr ydym yn y mwynhad o fendithion cyfundraeth gyflawn o addysg; ac, yn ol yr arwyddion presennol, nid oes un rhan o'r Deyrnas yn gwerthfawrogi ei manteision addysgawl yn fwy, nac yn meddu ar fwy o gymhwysder i ymddysgleirio yn ngwahanol ganghenau gwybodaeth.

MIS MEHEFIN.

TAN belydrau heulwen desog
  Ceir caniadau yn ddi-lai,
Yn mis Mai y cor asgellog;
  Mis Mehefin ddim yn llai;
'Nawr eu gwelir wyrddlas ddeilach,
  Fath brydferthion rydd im' swyn;
Ar bob man argoelion ffrwythau
  Llawn Mehefin yw pob llwyn.

Yn ngoleuni hirddydd hwyaf,
  Peraidd byncia'r adar mân
I'w Creawdydd deg emynau
  Fawl i Dduw dyrchafant gân.
Wi! 'r llawenydd ddaw i'm hyspryd,
  Gwelaf heddyw'r gwcw fwyn
Sy'n del chwareu ar ganghenau,
  Seinio cerdd o lwyn i lwyn.

Tydi heulwen ydwyt brydlon
  I bob lle i daenu'th wres,
Nes bo'n addfed îr blanigion
  Drwy'r cawodydd mawr a'r têS;
Rhoddi mae y Tad Anfeidrol
  Ei fendithion yn ddiri',
Gwasgar gwawl a wna yn gysson,
  Rhad rasusau yma'n lli'.

O! ddoethineb y tymhorau,
  Cawn eu mwyniant yn ddigoll
Yn nghynnaliaeth dyn a 'nifail,
  A chysuron i bawb oll;

Teilwng ydyw ar bob munyd
O fyfyrdod unrhyw ddyn—
Ceisio deall y ffordd oreu
I addoli'r Dwyfol Gun.

HEFIN HARRIES.

FFAWD Y GYMRAEG.

"Iaith prydyddion glewion, glwys,
Iaith cantorion lwysion lais;
Iaith plant Adda hyna'u hoes,
Iaith yw'r fau nid lleisiau llaes."

"PA un ai bywhau ynte marweiddio y mae y Gymraeg?" Y mae hwn yn gwestiwn ag sydd yn cael ei ofyn yn fynych yn y dyddiau hyn. Y mae yn gwestiwn ag sydd yn peru cynhwrf a chythrybledd yn meddyliau lluaws o lenorion a dysgedigion Cymreig, ac yn cyffroi sylw nifer o ieithyddwyr ac ysgolheigion enwog ar hyd a lled y ddaear. Ac nid rhyfedd; oblegyd y mae y cwestiwn hwn yn ddiau yn un pwysig, yn enwedig felly i'r Cymro, yn gymmaint a'i fod yn golygu un ai dirywiad neu ynte adfywiad yr hen iaith—un ai "tranc neu ddarfodedigaeth y Gymraeg, neu ynte ei bywyd a'i hadnewyddiad." Mae arwyddion, ar un llaw, fod y Gymraeg lafaredig yn darfod ac yn ymgilio *o'r* golwg; ar y llaw arall, y mae arwyddion ei bod yn dadebru ac yn cyfodi *i'r* amlwg. Os oes, ar un ochr, elfenau ar waith ag ydynt yn tueddu i'w lleihau, i'w gwanhau, ac yn y diwedd i'w gwthio allan o fodolaeth, y mae hefyd, yn ddiamheu, ar yr ochr arall, nifer o oruchwyliaethau nerthol, gweithiol, a grymus, yn cyfranu yn helaeth tuag at ei bywhau, ei chryfhau, a'i dwyn i amlygrwydd ac anrhydedd—i'w gwneyd yn iaith ddyddorol, ddefnyddiol, a phoblogaidd. A thueddir fi i gredu fod yr elfenau neu y goruchwyliaethau diweddaf hyn yn gorbwyso y rhai blaenaf, ac yn eu gwrthweithio yn dra effeithiol; ac o ganlyniad mai nid marweiddio ond bywhau, mewn gwirionedd, y mae y Gymraeg. Y mae yn debyg fod yr Ysgol Sabbothol Gymreig yn gwneyd mwy o wir ddaioni yn y cyfeiriad hwn nag mewn un cyfeiriad arall; a pha beth bynag a ellir ei ddweyd am y camddefnydd dybryd a wneir mewn rhai manau yn y dyddiau presennol o'r sefydliad ardderchog hwn i gyhoeddi a lledaenu athrawiaethau, credöau, a haerdybiau gwag a diystyr, ac i hau hadau rhagfarnllyd a sectyddol yn meddyliau yr oes sydd yn codi, y mae yn rhaid i ni addef, yn ddibetrus, fod yr Ysgol Sabbothol Gymreig fel llusern ddysglaer yn gwasgaru goleuni pelydraidd ein iaith dros fryniau a dyffrynoedd y Dywysogaeth, ac yn cyfodi colofnau cedyrn a diysgog i'w dal i fyny yn ngwyneb rhuthriadau ac ymosodiadau bradychus Dic-Sion-Dafyddiaeth a choeg-ddysgeidiaeth. Yn wir, y mae arwyddion byw ar bob llaw fod Dic-Sion-Dafydd ei hunan, yn gystal a'i eppil, yn prysur

ffoi o'n plith ni, ac efallai fod tranc y gwr boneddig hwn yn llawer agosach atom nâ thranc yr hen Gymraeg.

"Er dyfais pob Sais Dic Sion—Dafydd,
Wr difudd, balch, gwirion;
Ni wna'i nad un brad i'n bron
Rhag coledd Cymraeg hylon."

Y mae yr amser wedi myned heibio pan yr oedd yn beth anarferol i'r Cymro ddysgu ieithoedd dyeithr heb annghofio iaith ei fam; y mae ein cydgenedl wedi dysgu, erbyn hyn, mai yr hwn sydd yn fwyaf hyddysg yn ei iaith enedigol, ac yn glynu fwyaf wrthi, ydyw y parotaf a'r rhwyddaf i ddysgu ieithoedd ereill. Er hyn i gyd, y mae yn anhawdd peidio sylwi, gyda gofid, ar y dirywiad sydd i'w ganfod yn eglur, mor bell ag y mae yr Iaith Gymraeg yn y cwestiwn, yn yr Eisteddfod Genedlaethol a sefydliadau ereill, yn y rhai y gellid dysgwyl gweled parch dyladwy i'r Gymraeg. Yr hyn sydd yn eu hynodi yn fawr yn gyffredin ydyw absenoli yr elfen Gymreig.

Y mae pobpeth cyssylltiedig â'r Eisteddfod, yr hon oedd unwaith yn sefydliad gwir Gymreig, wedi ei dryliwio ag elfenau coegaddysgol a phenchwiban, yn hanner Seisnigaidd a Dic-Sion-Dafyddol. Pan gynnaliwyd yr Eisteddfod yn Llundain yn 1887, cefais y fraint o fod yn bresennol yn nghyfarfod Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, dan nawdd Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion, yn Queen's Gate Hall, South Kensington, Llundain; a'r hyn a'm tarawodd I fwyaf yn y cyfarfod hwnw ydoedd y ffaith na thraddodwyd ynddo gymmaint ag *un* araeth yn Gymraeg! Dywedodd y Prifathraw T. C. Edwards wrth gynnrychiolydd y *Christian Commonwealth*, ryw dair blynedd yn ol, fod yn ddiamheu fod y Gymraeg yn marweiddio. Dywedir wrthym gan ysgolheigion ereill llawn mor ddysgedig, ac, feallai, llawer mwy cymmhwys a galluog nag efe i ffurfio barn ar y cwestiwn, nad oes un rheswm dros gredu hyny, ac na fu y Gymraeg erioed yn fwy bywiog nag y mae hi heddyw—na fu amser erioed pan yr oedd rhagolygon ein cenedl a'n hiaith ni yn ymddangos mor llewyrchus a gobeithiol ag y maent yn bresennol. Ac fel y dywedodd Mills o Lanidloes, dros ddeugain mlynedd yn ol, braidd na ddychymygwn glywed llef yn esgyn o Hen Walia wiwlon, a'i hadsain yn ehedeg o Fôn i Fynwy, nes rhwygo y cymmylau gan ei nerth, gan ddweyd gydag Ieuan Glan Geirionydd—

"E bery ei hachos mewn bri uchel,
A gwŷr o urddas a geir i'w harddel;
Y dyn a esyd i'w gwneyd yn isel,
O'i gwir ogoniant, â gorwag annel,
Hwnw a gaiff, cyn y gwel—hyn,
Ei osod yn eigion tywod yn ddigon tawel!"

Ond nid i'r Eisteddfod, modd bynag, nac ychwaith i dduwinyddion proffesedig ein gwlad, y mae y rhagolygon gobeithiol hyn yn ddyledus; ac yn wir, nid ar y rhai hyn y mae cynnydd a chadwr-

aeth yr iaith yn dybynu. Diau eu bod yn cyfranu rhyw ychydig at ein llenyddiaeth Gymraeg; ac fel y dywed ysgrifenydd galluog (Ruric Dhu) mewn un o'n newyddiaduron cenedlaethol, "Y mae pob peth gwerthfawr a ysgrifenwyd, neu a ysgrifenir ynddi, yn gweithio o blaid ei chadwraeth." Ond y mae cadwraeth y Gymraeg yn dybynu ar bob Cymro personol, ac yn neillduol ar y rhai hyny y mae addysg yr oes nesaf yn eu gofal; ac os bydd i'r rhai hyn wneyd eu dyledswydd, fel y credir eu bod yn ceisio gwneyd, ni raid i ni ofni colli yr hen iaith. Y mae Cymru heddyw yn ymddeffroi o'i chwsg, ac yn dechreu dysgu ei phlant i fod o ddifrif i geisio gwybodaeth o'r byd a'i bethau, i goleddu syniadau parchus ac aruchel am olygiadau, arferion, a galluoedd cenedloedd ereill, ac i feithrin egwyddorion o garedigrwydd, cyfiawnder, a rhyddid barn. Ac yn wir, y mae yn hen bryd iddi wneyd hyny, oblegyd y mae wedi bod ddigon o hyd yn palfalu yn nhywyllwch dudew duwinyddiaeth, a'r hyn a eilw yn ~~'ysprydol'~~ a 'goruwchnaturiol'—y mae wedi bod yn ddigon o amser, bellach, yn ymdrybaeddu mewn rhagfarnau sectyddol ac ofergoelion crefyddol. Pan ddaw meib Cymru yn fwy hyddysg a gwirionedd, i ymddiosg o'r hyn sydd ffugiol a rhagrithiol, ac i feithrin gwybodaeth fuddiol ac ymarferol; i garu ymchwilio i mewn i ryfeddodau gwyddor a chelf, ac i fynu llenyddiaeth y pethau hyn mewn Cymraeg goeth a chlasurol ni fydd perygl iddynt byth annghofio eu hiaith. Hyrwydded yr amser, ynte, pryd y ceir gweled y Gymraeg yn iaith ymarferol athroniaeth, gwyddoniaeth, a chelfyddyd; yn blodeuo mewn harddwch ac enwogrwydd, ac yn ymddadblygu i goethusder, a phurdeb, a pherffeithrwydd, yna—

> "Ein hiaith berffaith a bâr,
> Yn ddiau, oes y ddaear."

D. Delta Evans.

AM HEN FORGANWG.

PIGION O LAW-YSGRIFAU ANNGHYHOEDDEDIG.

Yn amser Iarll y Clâr diweddaf y collwyd y frenhiniaeth yng nghenedl Caradog ab Iestyn yng nghyfoed Aberafan am iddynt ddial lladd yr Arglwydd Llewellyn ab Gruffydd (A.D. 1260) o Wynedd, a thrais gwlad oedd dwyn hyny oddiar y genedl rhwng Nedd ag Afan, a hono a fu'r frenhiniaeth Rial ddiweddaf yng Nghymru—heb air neb ar eu gair hwy oddiwrth [oddigerth] y Coetty. Ar ddwy Arglwyddiaeth hynn a fuont megis Pen-tewynion yn cynnal yn anniffodd y Braint a ddyly'r genedl Gymru: ar Fraint honn a gollyson [gollasom] ni am ein pechodau a digio Duw oni ddaeth dial a difraint, a dwyn ein cyfoeth a'n Hawl a'n Braint Penrhaith oddiarnom, ag nid oes inni o barth cenedl onid enw a'n Hiaith yr hon a ddylyon [ddylason] ni ei chadw a'i harfer

yn ddilediaith, ag ymarfer a phob gwybodau a champau a deddfau daionus, fal ydd ennillon ni fodd Duw a chlod gan ddynion, ag o hynny y daw i ben, ag yn wir, a broffwydai y Beirdd, sef y cyffant y Cymry eu Tir a'u Braint a'u Coron etto, a bod yn genedl Benrhaith Ynys Brydain etto, a pharhau fel hynn tra bo Byd ym myd, a dyweded pawb Amen - a phoed felly y bo.

Ieuan Gethin ap In. ap Lleision oedd yn byw yn mlaen Baglan a pherchen ar y lle, yn wr bonheddig o waed uchel, ag yn ysgolhaig mawr, efe oedd y Prydydd goreu yng Nghymru, ar senn ac ysmaltawd, a llawer a fuont yn ddysgyblion iddo. (Sion Bradford)

Hen enwau ar leoedd yn Morganwg :—

St. Nicholas	Llanenydd
Pontfân	Tref hir yn y Waun
St. Sior (St. George's)	Caer Luned
Peterstone (Llanbedr-y-fro	Ton-y-felin
Fonmon	Aberffreunant
East Orchard	Maesgwenith yn Rhos Einon

Cymmeriadau traddodiadol hen deuluoedd Morganwg :—

Y Carnes, Ewenny—y Carniaid penchwiban.
Y Bassets, Beaupre—y Bassediaid ffroen-uchel.
Y Flemings, Fflemingston—y Ffleminsiaid mudion.
Y Turbervilles, Tythegston y Twrbiliaid ffrostus.
Yr Herberts o Abertawe - yr Herbertiaid gweddeiddion.
Y Mathews o Landâf—y Matheiaid poethwylltion.
Y Stradlings, St. Dunwyd—y Stradlingiaid llawen.
Y Gamages o'r Coyty—y Gameisiaid tawelion.
Y Sais (Seys), Boverton—y Seisiaid tywyllion.
Y Mansels, Margam—y Manseliaid gwallgofus.
Lewis o'r Fan—y Lewisiaid arafion.
Y Leyshons—y Lleisoniaid dysgedigion.
Thomas, Wenvoe—y Thomasiaid meddwon.
Jenkins o Hensol—y Siencyniaid dichellgar.
Gibbons, Trecastell—y Gibyniaid gwirion.
Y Raglans—y Rhaglaniaid chwaldodog *(chattering)*.
Y Spencers—y Spenseriaid ynfydion.
Maliphant, Flemingston—y Malffantiaid dyfnion.
Powels, Llanharan a Llwydarth - y Pyweliaid doethion.

Cyfnod A.D. 1650, neu yn gynnarach

Ieuan Ddu ap Dafydd ap Owain, o Felin Ifan Ddu—efe a brynodd Ddyffryn, Aberdâr, ag a aeth yno i fyw. Yr oedd efe yn wr aberthog iawn, meddant, a chymaint ei barch gyda'r diawl fal nad oedd dim ar law yr hen wr nas celsai ei gâr Ieuan Ddu ond agor ei enau.—EDWARD EVAN.

Ofergoelion Morganwg :—Pechadurus newid gwenith am wenyn, a chymeryd arian am impio coed. Mae'n arferiad rhoi bara rhan Dydd Gwyl Eneidiau *(All Souls)*, caws Gwyl Ifan, teisien Gwyl Ystwyll, cramwyth y Grawys, iwd blawd Dydd Iau'r Cablyd (Iau o flaen Gwener y Groglith), ffwrment Dydd Pasc, tori pen y Grawys, cig i Awst. Gwely Gwyl Ifan o flodau, a rhedeg trwy'r tân. Ytta, neu gardotta yd, Gwyl Domos. Llaetha, nos Gwyl Ifan, i wneuthur whipod. Gwlana, cymmortha glo, cymmorth yr afal, &c.

Cofnodir terfyniad neu ddifodiant Arglwyddiaeth Afan gan Ieuan Gethin ap Lleision fel hyn :—

Mil trichant gwarant gwirian—a deunaw
Fe dynnwyd yn gyfan,
Gan drais mawr, i lawr yn lân
Hynafiaeth Brenhin Afan. A.D. 1318.

Dyma englyn arall yn cofnodi cwymp Arglwyddiaeth Rial y Coetty :—

Dau seithgant honant hyny,—a deuddeg
Diweddwyd y Coetty ;
Rhoed llwyr dawl ar bob hawl hy
Rhag camraith ar y Cymry. A.D. 1412.

Merthyr. D. T. MORGAN.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.

PE chwilier pob cwr o Gymru, gorchwyl anhawdd fyddai cael man mwy dewisol i fyned ar bererindod iddo nâ "Dyffryn Aeron, lon, ddolenog ;" oblegyd yno y gwelir anian yn ymddawnsio yn nghanol prydferthion na cheir eu cyffelyb, o bossibl, oddigerth mewn ychydig o lanerchi yn Nghymru. I un wedi ymdroi am yspaid maith yn nghanol berw a phrysurdeb masnachol Sir Forganwg, ac wedi anadlu o'i hawyr nad yw bob amser yn bur, braint nas gall neb ond efe ei phrisio yn ddigonol yw talu ymweliad ag ardal

lonydd un o'n capeli destlus a ymlecha yn wylaidd yn nghanol coedydd preiffion, ac a rydd i ni enghraifft darawiadol o'r tawelwch hwnw y rhaid i ni wrtho cyn y gallwn glywed yr Yspryd tragwyddol yn llefaru ei neges o gariad a hedd wrth ein hysprydoedd ni. Mae bellach fath o gyd-ddealldwriaeth yn ffynu rhwng y brodyr Undodaidd yn Nghymru – math o *tacit understanding*—y cynnelir ein cyfarfodydd blynyddol yn Sir Aberteifi, a'r rhai Nadolig yn ardaloedd y glo a'r trên. Yr ydys, ar y cyfan, wedi gweithredu ar y rheol hon, a hir y parhäer i weithredu arni yw fy nymuniad a'm gweddi I. Yn Rhydygwin y cynnaliwyd y cyrddau blynyddol eleni, ac i'r rhai annghyfarwydd â'r gymmydogaeth hon, gallaf ddweyd na ellid byth ddirnad am fangre mwy neillduedig a mwy rhydd o derfysg a thrafferth byd, er mwyn cynnal cyfarfodydd i addoli Duw nâ r capel hwn. Saif ychydig bellder o Temple Bar, pentref bychan ar y brif ffordd sydd yn arwain o Lanbedr i Aberaeron, pum' milldir o'r lle blaenaf, ac wyth milldir o'r ail. Amgylchynir y capel â choed, y rhai, ar y tymhor hwn o'r flwyddyn, a ymwisgant yn eu gwisg brydferthaf, ac a ymgysgodant dros yr adeilad bychan, nes bron ei guddio o'r golwg. Nid rhyfedd fod ein tadau crefyddol yn ngwahanol barthau o Gymru wedi ymhyfrydu cymmaint i gilio i gilfachau mynyddig, neu i gymoedd coediog, ac wedi codi eu temlau isel yn "nwnder ber y dwr," lle y buont, hwy a'u disgynyddion, am oesoedd yn offrymu eu gweddiau, ac yn cyfeirio eu mawl at y Tad nefol. Nid gorfod, yn gyfangwbl, a'n gyrodd i wneyd hyn, ond y cydnawsedd hwnw a geir mewn unigedd mad, pryd yr ydym yn annghofio pobpeth ond ein bod wyneb-yn-wyneb ag Yspryd mawr y bydysawd. Cydrhwng y ddau ddrws a roddant fynedfa i'r capel mae ffenestr fawr, o flaen yr hon, y tu allan, mae beddfaen yn cofnodi marwolaeth Griffith Isaac, un o garwyr yr achos yno, yr hwn a fu farw Tachwedd y 23ain, 1858, ac ar waelod y maen ceir yr englyn hwn :—

"O'r cantoedd mi yw'r cynta'—i orphwys
Ar arffed bedd yma:
Ond gwybydd y daw dydd da—
Duw o hono'm dihuna."

Yn y capel hwn, yn nghyd a Chiliau, y bu y diweddar Barch. W. Rees yn gweinidogaethu am flynyddau lawer, ac ar ol ei farwolaeth, bu y ddwy ddeadell heb weinidogaeth sefydlog hyd adeg y cyrddau eleni, pryd y pennodwyd yn weinidog y Parch. Lewis Williams—dyn ieuanc newydd orphen tymhor ei efrydiaeth yn y Coleg yn Nghaerfyrddin, a'r hwn, trwy ei ddoniau dysglaer a'i fuchedd loyw, lan, a fydd yn sicr o fod yn gaffaeliad gwerthfawr i'r ddwy eglwys. Pan gynnaliwyd cyrddau blynyddol yn Rhydygwin ychydig flynyddau yn ol, dywedodd rhywun fod y pregethu yno yn dynodi *low water mark* pregethiad Undodiaeth. Yr oedd y cyrddau ar yr 22ain a'r 23ain o Orphenaf, 1896, yn eithriad gogoneddus i'r reithfarn a basiwyd yr adeg hono; oblegyd nid wyf yn

credu i mi fod yn bresennol erioed mewn cyrddau mwy godidog yn y pregethu, ac yn y gwrandawiad. Yr oedd yr oll, o'r dechreu i'r diwedd, yn rhagorol. Dechreuwyd yr odfaon nos Fercher, pryd y pregethwyd yn Rhydygwin ac yn Nghiliau. Yn y capel olaf, arweiniwyd y gwasanaeth defosiynol gan y Parch. J. Hathren Davies, yr hwn hefyd a bregethodd. Dylynwyd ef gan y Parch. Ddr. Griffiths, yr hwn a draddododd bregeth hwyliog i lon'd yr adeilad o wrandawyr astud. Dechreuwyd yr odfa yn Rhydygwin gan y Parch. J. Fisher Jones, a phregethwyd gan y Parchn. J. Thomas a T. Lloyd Jones. Clywsom ganmoliaeth uchel i'r ddwy bregeth. Boreu Iau a neillduwyd, yn ol y drefn newydd, i ymdrin â materion perthynol i'r enwad Undodaidd yn Nghymru. Dechreuwyd ychydig funydau wedi naw o'r gloch, a chyn terfynu, pasiwyd penderfyniadau pwysig. Blin gan yr ysgrifenydd na ddarfu iddo gymmeryd nodiadau o'r hyn a basiodd yn y cyfarfod hwn, gan na freuddwydiai am ysgrifenu yr adroddiad hwn ; ac nid oes ganddo, gan hyny, ddim i'w wneyd ond ymddybynu ar ei gof, yr hwn nid yw yn rhy afaelgar bob amser. Cymmerwyd y gadair gan lywydd y gymdeithas—y Parch. R. J. Jones, M.A. Cafwyd adroddiad yr ysgrifenydd—y Parch. W. James, B.A., Y.H.,—yn rhoddi crynodeb o waith y gymdeithas yn ystod y flwyddyn, ac yr oedd yr adroddiad yn galonogol iawn, yn dangos gweithgarwch mawr gyda'r achos a broffeswn yn ngwahanol ardaloedd. Ymddengys fod achos llewyrchus yn y Sychpant, lle y pregethir yn rheolaidd gan y Parch. J. Davies ; ac hefyd yn Cross Inn, gerllaw Pencader, lle y gwasanaethir gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ereill. Pwysfawrai yr ysgrifenydd y ffaith fod mwy o eglwysi wedi eu hagor yn yr enwad yn ystod y flwyddyn ddiweddaf nag a wnaed erioed mewn cymmaint o amser yn hanes yr enwad. Gobeithiaf y ffyna ac y lluosoga yr eglwysi hyn ar eu canfed mewn byr amser. Oddiwrth yr adroddiadau a gawsom yn y cyfarfod gan bersonau a wyddent oreu sefyllfa pethau yn y manau a nodwyd, yr wyf yn ymlawenhau yn y rhagolygon addawol a'n cyfarfuant ar bob tu. Rhoddwyd help arianol o drysorfa y gymdeithas er cario yn mlaen y gwaith da ag ydyw wedi gychwyn.

Pwnc holl-bwysig arall y cytunwyd arno yn y cwrdd hwn oedd yr un a berthyn i'n Hysgolion Sul. Pasiwyd fod yna un maes llafur cyffredin i fod yn mhlith ein Hysgolion Sul yn ystod y flwyddyn, ac ar y terfyn fod arholiad i gymmeryd lle yn y maes hwnw. Cytunwyd mai testyn efrydiaeth ein hysgolion am y flwyddyn sydd i ddod fydd Efengyl Marc. Etholwyd Mr. James yn ysgrifenydd i'r mudiad newydd hwn, yn nghyd â Mr. Thomas y Graig yn ysgrifenydd. Yr ydym yn deall, hefyd, fod Mr. James wedi addaw ysgrifenu cyfres o wersi o fis i fis i'r YMOFYNYDD, er cyfarwyddyd y sawl a fwriadant ymbarotoi ar gyfer yr arholiad. Mae y mudiad hwn yn sicr o fod yn gam yn yr iawn gyfeiriad, a chyda y fath wŷr profiadol wrth y llyw, ni all lai na bod o les a

mantais annbraethol i'n pobl ieuainc yn gyffredinol. Hyderaf y dylynir y mudiad a llwyddiant mawr. Amgylchiad arall a roddasai gryn ddyddordeb i'r cyfarfod hwn oedd, cyflwyniad i sylw y pwyllgor nifer o *specimens* o'r Llyfr Tonau ac Emynau newydd, a barotoasid gan Mr. D. Eiddil Jones, Mr. W. Harris, a'r Parch. J. Hathren Davies. Mae helynt y llyfr hwn mor wybyddus i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD, fel nad oes angen ymhelaethu yma. Mae dygiad allan lyfr o'r fath yn dynodi cyfnod yn hanes ein henwad yn Nghymru, a gobeithiwn y bydd o fendith i'n heglwys. Ar gynnygiad y Parch. J. Davies, pasiwyd fod ein cynnulleidfaoedd at eu rhyddid i wneyd fel y byddont yn dewis a'r llyfr newydd. Deallwn fod y rhan amlaf, os nid yr oll, o'n cynnulleidfaoedd yn bwriadu mabwysiadu'r llyfr. Swyddogion y gymdeithas am y flwyddyn nesaf ydynt :– Llywydd, y Parch. J. Davies; Ysgrifenydd, y Parch. W. James, B.A., Y.H.; Trysorydd, Mr. J. Evans, cyfreithiwr. Y Cyrddau Blynyddol nesaf a gynnelir yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, a'r rhai Chwarterol yn Ngellionen.

Dechreuwyd yr oedfa boreu dydd Iau gan y Parch. J. Hathren Davies, a thraddododd y Llywydd ei anerchiad. Gan fod yr anerchiad wedi ei argraffu, ni wnaf ond yn unig dweyd ei fod yn alluog ac yn ddyddorol dros ben. Dylai gael cylchrediad helaeth, a bydd ei ddarllen yn sicr o fod yn bleser mawr. Yn y prydnawn pregethwyd gan y Proff. Moore yn Saesneg, a chan y Parch. D. Ifor Davies yn Gymraeg. Neillduwyd y cwrdd nos Iau i sefydlu y gweinidog, a rhoddwyd y siars i'r gweinidog gan y Parch. J. Davies, ac i'r Eglwys gan y Parch. Ceredig Jones, M.A. Fel y crybwyllais o'r blaen, yr oedd y pregethau yn ardderchog, yn peru i ni deimlo na flinem byth yn gwrando arnynt. Am y cynnulliadau, yr oeddynt yn rhy luosog i'r capel eu cynnwys, ac ar un adeg, gallem farnu fod cymmaint o dorf tufaes ag oedd y tufewn, er fod y capel yn orlawn. Mae fy iaith I yn rhy brin ei hadnoddau, Mr. Gol., i wneyd cyfiawnder a'r croesaw calonog a'r caredigrwydd dihafal a ddangoswyd gan y cyfeillion yn Rhydygwin. Yr oedd pob anedd yn y gymmydogaeth a'i ddrws yn agored, ac mewn amryw o honynt yr oedd gwely yn barod ar gyfer y dyeithrddyn a ewyllysiai gael lle i orphwys. O gylch y capel yr oedd pob ty hyd y nod yr ystablau a'r *cart houses* wedi eu troi yn *dining saloons* am y dydd, ac ar hyd y fynwent yr oedd rhesu o fyrddau yn ochain dan eu llwythi, a'r gwyr a'r gwragedd yn finteioedd yn ymdyru atynt i dori eu newyn a'u syched ar ol hir daith y dydd. Rhaid ei bod yn wledd i yspryd Mr. Williams, y gweinidog ieuanc, i weled ei fywyd cyhoeddus fel milwr i Iesu Grist yn cychwyn dan y fath amgylchiadau ffafriol. Fy nymuniad yw, ar i'w fywyd fel bugail i'r ddwy ddeadell ffyddlon yn y ddau le fod yn fywyd da a defnyddiol, rhydd o flinderau, a bendithfawr yn ei ganlyniadau mewn gwlad ac eglwys.

UN OEDD YNO.

"COFIA FI."

Beth dâl imi roi fy mryd,
Ar drysorau hyn o fyd;
Er meddiannu tai a thir,
Rhaid eu gadael cyn bo hir;
O! fy enaid meddwl am
Drysor Nefoedd ar bob cam;
A phan ddaw i'm groesi'r lli
O! Dad Grasol—Cofia Fi.

Nid oes dim fel crefydd bur
Dâl ei ffordd trwy'r anial dir;
Cwyd fy mhen ar wely claf
Balm o gysur ganddi gaf;
O! fy enaid cais i'th rhan
Grefydd bur a'th ddeil i'r lan;
A phan ddaw yr "Angeu du,"
O! Dad Grasol—Cofia fi.

Morio 'rwyf o dòn i dòn
Erwin fòr y fuchedd hon,
Er cael glanio maes o law
Yn yr hafan ddyogel draw;
Cwyd fy yspryd llesg i'r lan,
O! fy Nhad ryw adyn gwan
Sydd yn llefain arnat Ti—
O! Dad Grasol— Cofia fi.

Trebanos. H. MORGAN.

NODYNAU GWASGAROG.

CREFYDD.

YN *Wales* y mae cyfres o erthyglau bywgraffiadol yn ymddangos ar Joseph Edwards a'i waith, wedi eu hysgrifenu gan William Davies (Mynorydd), tad y gantores enwog Mary Davies. Yr oedd Joseph Edwards, yn enedigol o Ferthyr Tydfil, ac yn mynwent gyhoeddus Cefncoed gerllaw, y mae un o'i orchestweithiau—*statue* neu ddarlun mewn marmor o "Grefydd." Darlun o fenyw ydyw wrth gwrs, a'r llaw aswy yn gorphwys ar Feibl, a'r llaw ddeheu ar y fynwes yn dal blagur lili, arwyddlun gobaith. Costiodd £600, a dylai pob Cymro crefyddol a gwladgarol fynu golwg arno, a dylai ddarllen yr erthygl arno yn rhifyn *Wales* am Mawrth. S.N.S.

Y CREDOAU AWDURDODEDIG.

Derbynir a defnyddir tair Credo yn Eglwys Loegr—Credo yr Apostolion, a elwir felly, er na welodd yr apostolion erioed mo honi, er ei bod yn ddiamheu yn hen iawn, ni wyr neb pa mor hen; Credo Nicea, yr hon a dderbyniwyd gyntaf yn Nghymmanfa Nicea yn 325, ac a gadarnhawyd wedi hyny yn Nghymmanfa Chalcedon 451; a Chredo Athanasius, neu yr un a gam briodolir iddo, oblegyd ni fu ganddo efe yr un llaw erioed ynddi. Nid oes un o'r tair yn werth pinsied o halen fel help i gael gafael yn y gwirionedd, a dyna'r unig beth sydd o bwys mewn crefydd onide?

BARDDONIAETH Y SYNIAD.

Dr. Murray o'r *British Museum* sydd yn adrodd. Yr oedd gyda'i orchwyl un diwrnod, a phwy ddaeth i fewn ond y naturiaethwr enwog Proffeswr Owen, ac wrth basio trwy yr ystafell Roegaidd, sylwodd ar lun pres y duw Hypnos, duw Cwsg, gyda'i aden yn codi o'r pen. Gwelodd y Proffeswr rywbeth hynod ar unwaith, ac meddai wrth y Doctor, "A ydych wedi sylwi mai aden aderyn nos sydd yn hedfan yn ddystaw ydyw hwn?" Ac ychwanegodd, "*Idea* farddonol, brydferth, ydyw hon o eiddo'r hen gerfiwr Groegaidd i roddi i dduw cwsg adenydd a'i galluogai i ymweled a'r claf heb na si na swn i'w aflonyddu."

Y LLYFR TONAU AC EMYNAU.

[*Yr ydym wedi derbyn llythyr maith oddiwrth Mr. T. J. Jenkins ar y pwnc hwn, ond mae'n flin genym ein bod, o ddiffyg gofod, wedi gorfod ei gwtogi. Dyfynwn y darnau canlynol o hono.*]

Credaf yn ddios mae gwastraff ar amser, a siom i lawer o eglwysi, ydyw yr oedi byth a hefyd a gymmer le yn nglyn a derbyniad neu wrthodiad terfynol o'r Llyfr Tonau sydd yn cael ei ddwyn allan gan Mr. Eiddil Jones. Yn mhellach, derbyniwyd yr amodau a ddanfonwyd iddynt yn unfrydol gan yr eglwysi, ond yn anffodus, nid ydyw y pwyllgorau, er fod cefnogaeth yr eglwysi ganddynt, wedi symmud un cam yn y cyfeiriad hwn. Yn ychwanegol, y mae amryw o donau ddanfonwyd at Mr. Jones gan rai eglwysi a phersonau, wedi eu gosod i fewn eisoes yn y llyfr. Caredigrwydd yn Mr. Jones oedd ei barodrwydd i gydymffurfio yn y peth hwn.

Hefyd, deallaf fod y llyfr wedi ei argraffu bron i gyd, ac nid yn unig hyny, ond y mae yn llyfr gwir deilwng o'n sylw. Felly yn ngwyneb yr ystyriaethau hyn, llwybr dyledswydd amlwg yr eglwysi ydyw, penderfynu beth sydd oreu i'w wneyd dan yr amgylchiadau, mewn perthynas i'r llyfr. Credaf mai gwell fyddai i ni, fel eglwysi, fabwysiadu y llyfr, a'i dderbyn fel Llyfr Tonau ac Emynau yr enwad.

Gofal gyda'r peth hwn all, fe ddichon, ochel llawer o ddiflasdod ac ofer siarad. Gyda gobeithio na fydd fy ngwaith yn galw sylw at y peth hwn yn dramgwydd i neb.

MR. GLADSTONE AC URDDAU EGLWYSIG.

Myn yr Offeiriad Anglicanaidd ini gredu fod yn perthyn i'r wir Eglwys dair cangen, y rhai a adwaenir fel Eglwys Rufain, Eglwys Roeg, ac Eglwys Loegr; fod y rhai hyn o Ddwyfol osodiad, ac yn perthyn i'r Olyniaeth Apostolaidd; nad yw pob enwad o Annghydffurfwyr, byddent hwy fach neu fawr, oll ond bastardiaid. Mae yr olyniaeth yn bwysig iawn yn eu golwg, ond er eu gofid mawr y mae'r Pab yn pallu cydnabod fod neb yn yr olyniaeth oni fyddant o nifer ei blant ei hunan; ac felly mae er ys llawer dydd wedi esgymuno pawb ereill. Y mae'n wir fod Lloegr a Groeg wedi talu yr un *compliment* iddo yntau, fel y maent er dyfyrwch yr allanolion annghydffurfiol oll yn esgymunedig. Nid yw urddau mwyaf cyssegredig y Lloegrwyr yn ddim yn ngolwg y Babaeth. Er fod y cywrad lleiaf yn Eglwys Loegr yn teimlo rhyw fawredd a phwysigrwydd rhyfedd wrth gydmaru ei hunan a'r pregethwr annghydffurfiol, etto ni wna'r Pab dderbyn y mwyaf o'r criw, dim hyd y nod Manning na Newman, heb iddo yn gyntaf gael stamp newydd, sef yr urdd Rhufeinig. Dyben Mr. Gladstone yn ei lythyr, sydd wedi tynu cymmaint o sylw, yw ceisio darbwyllo yr hen Father o Rufain i gydnabod dilysrwydd urddau Eglwys Loegr. Saif y Pab yn hollol ar yr un tir ag Eglwys Loegr ar fater yr urddau. Ni waeth beth fyddo gallu, nac enwogrwydd, na dylanwad, nac ysprydoliaeth y pregethwr annghydffurfiol, nis gellir offeiriad o hono heb iddo yn gyntaf fyned dan ddwylaw esgob a derbyn yr Yspryd Glân. Trwy hyny yr honir yn Eglwys Loegr ei fod wedi ei osod yn yr Olyniaeth, ond yn Rhufain ni chaniateir yr honiad, yn ngolwg y Pab ffug yw holl urddau Eglwys Loegr, eiddo yr archesgob penaf i lawr hyd at eiddo y cywrad lleiaf ac oddi yno yn ol drachefn. Os am y *genuine article* rhaid myned i'r siop sydd wedi ei thrwyddedu i'r pwrpas ac y mae hono yn Rhufain. Wedi bod dan ddwylaw yr esgob, honir yn Eglwys Loegr fod y cywrad lleiaf, 23ain oed, wedi derbyn galluoedd goruwchnaturiol. Trwy'r bedydd gall droi'r plentyn bach oedd yn flaenorol yn bentewyn uffern (yn ol addysg y Llyfr Gweddi) i fod yn blentyn i Dduw, yn aelod i Grist, ac yn etifedd teyrnas nefoedd. Maent yn honi fod ganddo yr hyn nad oes gan un gweinidog annghydffurfiol, y gallu i weinyddu'r Cymun Sanctaidd yn briodol ac yn effeithiol. Maent yn honi fod ganddo allweddau nefoedd ac uffern yn ei law, ac y mae cannoedd a miloedd yn eu credu ac yn derbyn eu holl honiadau heb nac os nac oni bai. Ond y mae'r Pab yn dywedyd Na, ac yn pwpŵo'r honiad fel un disail; tra mae Mr. Gladstone gyda'i hyawdledd a'i ddawn rhyfeddol am iddo ei ganiatau, a thynu na, na cannoedd o flynyddoedd yn ol. Rhywbeth rhyfedd yw yr Olyniaeth Apostolaidd! Ac etto nid ymddengys ei fod yn gwneuthur un offeiriad

yn ddim callach, yn ddim cyflymach ei welediad, sicrach ei ymresymiad, helaethach ei wybodaeth, doethach ei ymddygiad, dyfnach ei ysprydolrwydd, gloewach ei gydwybod, glanach ei foes, na phurach ei fuchedd nag a fyddai hebddi. Ac os felly y mae, beth gwell yw o'i fod yn yr Olyniaeth, a bod dwylaw esgob wedi bod ar ei ben? Gwendid Mr. Gladstone ac nid ei nerth welwn ni yn ei lythyr at y Pab.

Mehefin, 1896, T.C.U.

TLYSAU YR HEN OESOEDD.—1735.

Dyma enw'r cylchgrawn Cymraeg cyntaf a argraffwyd yn Nghymru, a dim ond un rhifyn ymddangosodd o hwn. Lewis Morris, Llewelyn Ddu o Fon, oedd y boneddwr i'r hwn y perthyn yr anrhydedd o'i gyhoeddi. Yr oedd efe yn hendaid i'r bardd Seisnig presennol o'r un enw. Rhydd *Llyfryddiaeth y Cymry*, tud. 370, Mawrth 1af, 1702, fel dydd ei enedigaeth; ond y Parch. Canon D. Silvan Evans a ddywed ar dystiolaeth Lewis Morris ei hunan yn ei *Celtic Remains* iddo gael ei eni yn "1701 o.s.," ac etto ni wyddai Lewis bobpeth; canys, yn ol *Register* Bedyddiadau Llanfihangel Tre'r Beirdd, cafodd ei fedyddio Mawrth 2, 1700; a mwy na thebyg ei fod wedi ei eni cyn hyny. Rhyfedd mor anhawdd ydyw cael amseriadau cywir yn Nghymru. Dyma ddyfyniadau:—

"The following englyn (compos'd of vowels) was formerly publish'd in Holmes's Academy of Armory (l.3.c.4.) as a challenge to all nations and tongues. It is a description of a silkworm, containing the whole history of that animal, and is no weak argument of the smoothness and copiousness of the British tongue. N.B.—*W* and *y* are vowels in the Welsh."

Englyn Gorchestol i Bryf Sidan.

O'i wyw ŵy i weu e â, a'i weuau
O'i ŵyau a weua;
E weua ei we aia'
A'i weuau yw ieuau ia.—t. 5.

I Gusan Merch.

Sippiais fedd gwiwfedd gyfion—go faswedd
Gwefusau melusion!
Duw a fwriodd dyferion
Mel-gafod hyd dafod hon. (Tud. 8.)

Ar dudalenau 10, 11, ceir "Cywydd y Chwanen," o waith Thomas Prys, o Blas Iolyn, "a commander of buchaneers on the coast of Spain in Queen Elizabeth's time." O bossibl y bydd Mr. Gol. can fwyned a chyhoeddi y llythyr canlynol yn y cyssylltiad hwn:—

"I'r Pryf Gopyn."

"O'i wiw wŷ i weu e â,—a'i weau
O'i wyau e weua;
E weua ei we aua',
A'i weuau yw ieuau iâ."

"Dear Sir,

Above you have what I conceive to be a correct copy of the Englyn. I believe it may be Englishified something in the following manner; but I must confess I don't exactly comprehend the meaning of the last line:

"From his *fair* egg to weave he goes,—
And his webs
From his eggs he weaves
He weaves his wintery web,
And his webs are the *yokes of ice*."

"Yokes of ice," I am afraid, will not do. I am inclined to think it should be "ïaau iâ," and not "ieuau"—the *icicles of ice*; but even in that way the sense would be deficient.

I remain, Rev. Sir, your obt. servant,

Abertawy, Oct. 7, 1822. JOHN HARRIS."

Y John Harris hwn oedd "Ieuan Ddu Glan Tawe," mab Joseph Harris (Gomer). Bu farw 1823, cyn ei fod yn 21 oed. Ysgrifenwyd y llythyr at y Parch. David Davis, Castell Nedd, mab D. Davis, y Bardd o Gastell Hywel.

Rhydd Wilkins yn ei *Literature of Wales*, p. 165, y cyfieithad canlynol allan o *Jones's Relics of the Bards*:

"From his own eggs the busy worm
Attempts his hasty web to form,
Like rings in ice they seem to view,
Beantious like those and brittle too."

Bydd yn ddyddorol gwybod o ba le y daeth englyn y "Pryf Gopyn" gyntaf, nid o ran ei werth, ond o herwydd y sylw mae wedi gael. T. C. U.

Manion ac Hanesion.

LLANBEDR.—Nos Lun, Gorphenaf 20, bu y Parch. D. Ifor Davies a J. Hathren Davies yn pregethu i dyrfa fawr yn Nghapel Brondeifi. Yr oedd yn bresenol yn y cwrdd Mr. D. Eiddil Jones, a chanddo *specimens* o'r llyfr tonau ac emynau newydd. Cafwyd cyfarfod ardderchog.

LLWYN.—Deallwn i'r Parch. W. J. Davies bregethu ei bregeth ymadawol yn y capel hwn ac yn y Bwlch dydd Sul, Gorphenaf 26. Dymunwn i Mr. Davies lwyddiant mawr yn ei gylch newydd yn Mountpottinger, ger Belfast, yn yr Iwerddon.

MR. E GWILYM EVANS.—Yr ydym yn deall fod y brawd ieuanc hwn, sydd yn awr yn efrydydd yn Rhydychain, wedi addaw gwasanaethu y ddwy eglwys yn y Llwyn a'r Bwlch am y ddau fis nesaf. Dyma beth yw gwneyd yn fawr o amser.

DOWLAIS.—Os hysbysir ni yn iawn, y mae yr eglwys yn y lle hwn wedi cael colled fawr trwy symmudiad Mr. Sam. George, aelod ffyddlon o honi, o Ddowlais i Ogledd Lloegr. Anhawdd hebgor dynion o fath Mr. George o'n heglwysi. Mae eu lle yn hynod wag.

GELLIONEN.—Pregethodd y Parch. Ceredig Jones, M.A., o Bradford, yma y Sul, Gorphenaf 26, a rhoes ei bregethau grymus foddlonrwydd mawr.

CEFN COED.—Cynnàliodd Ysgol Sul yr Hen Dŷ Cwrdd ei *phicnic* blynyddol yn Nhalybont, ger Aberhonddu, ddydd Iau, Gorphenaf 30. Mewn ardal mor baradwysaidd, nis gallasem lai na mwynhau ein hunain.

CYMMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Cynnaliwyd y gymmanfa hon eleni yn Llandyssul, pryd y daeth yn nghyd gorau o'n holl eglwysi yn y sir. Gan fod ein capel lawer yn rhy fychan, cafwyd benthyg capel eang y Seion trwy ganiatad caredig ein brodyr, yr Annybynwyr. Yr arweinydd ydoedd Mr. Thomas Davies, Llanbedr, ac y mae y gymmanfa ragorol a gawsom yn fwy o glod iddo nas gallwn ni ei wneuthur. Cyfeiliwyd ar yr *organ* yn fedrus iawn gan Miss Evans, Taliesin House, a Miss Davies, Temperance, Llanbedr, yn nghyd â phedair o foneddigesau ieuainc, ar y crythau, o'r un lle. Llywyddwyd yn ddeheuig gan y Parchn. R. C. Jones a W. Davies, a chafwyd anerchiadau gan amryw frodyr ereill. Carem wasgu ar y pwyllgor y dymunoldeb o gyfarfod mor fuan ag y byddo yn bossibl er gwneyd y trefniadau angenrheidiol gyferbyn â chymmanfa 1897, fel o ganlyniad y byddo ein diwylliad cerddorol ni yn myned ar ei gynnydd o flwyddyn i flwyddyn, ac y byddo yn cael ei deimlo yn ngwasanaeth y cyssegr.

PRIODAS.—Ar yr 16eg o Orphenaf, yn Eglwys Sant Mihangel, London Fields, Llundain, gan y Prifathraw Canon Owen, Llanbedr, Miss Evans, merch henaf Dr. Abel Evans, Taliesin House. Llanbedr, a'r Proff. Robert Williams, Coleg Dewi Sant, o'r un dref. Yr oedd y gwasanaeth yn Gymraeg. Hir oes i'r ddeuddyn ieuanc, yn rhydd o groesau'r llawr.

Marwgofion.

Mehefin 12, yn Springs, Johannesburg, Deheudir Affrica, o'r *Typhoid fever a Pneumonia*, Thomas, unig fab, Jane Thomas, a'r diweddar Daniel Thomas, Barley Mow, Llanbedr, gynt Ffosdigariad, Cillau, yn 30 mlwydd oed. Bu'n wael ei iechyd am rai misoedd, a thorwyd ef i lawr yn mlodau ei ddyddiau, ac yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a hyny mewn gwlad bellenig. Er yn mhell o'i gartref fe gafodd bob tynerwch yn ei gystudd. Claddwyd ei weddillion yn nghladdfa Bohsburg, ac yr oedd y gladdedigaeth barchus a gafodd, a'r dorf luosog a ddaeth yn nghyd i dalu iddo y gymmwynas olaf, yn dangos yn eglur fod iddo barch mawr gan ei gydnabod. Cyflawnwyd y gwasanaeth claddu yn yr iaith Gymreig. Gadawodd i alaru ar ei ol fam a thair chwaer, heblaw perthynasau ereill.

Mehefin 13, yn 45 oed, ar ol hir gystudd, yr hwn a ddyoddefodd gydag amynedd canmoladwy, Margaret, gwraig William Edwards, 67, Cemetery Road, Aberdar. Claddwyd y Sadwrn canlynol, y Parch. J. Grawys Jones (A.) ac R. J. J. yn gwasanaethu. Yr oedd Mrs. Edwards yn fenyw ddiwyd a gofalus am ei theulu lluosog, a gair da iddi gan ei chymmydogion a chan y gwirionedd ei hun.

Mehefin 16, Evan, unig fab Mr. a Mrs. Thomas, Llwyn, Llanbedr, yn saith wythnos oed. Claddwyd gweddillion y bychan yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. C. Jones, Llanbedr, ac yn yr eglwys gan yr offeiriad.

Mehefin 22, Mary Thomas, Ty Capel, Llwynrhydowen, yn 65 mlwydd oed. Hen chwaer unplyg a didwyll oedd Mary. Bu yn aelod ffyddlon yn eglwys y Llwyn drwy ei bywyd, a bu yn gofalu am y ddau gapel am flynyddau. Yr oedd yn gryn dipyn o ddarllenwraig, a threuliodd gannoedd o'i horiau yn darllen y Beibl a'r YMOFYNYDD. Dydd Iau, y 25ain, claddwyd ei gweddillion marwol yn nghladdfa y Llwyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan ei gweinidog, y Parch. W. J. Davies. Nid oedd dim Phariseaeth yn perthyn i Mary; menyw blaen, onest, ydoedd. Heddwch i'w llwch.

Mehefin 27, John Howells, Bryngwynau, gynt Ffrwdyrhwyad, Llanbedr, yn 80 mlwydd oed. Ar ol mwynhau iechyd da am oes faith, cafodd ei dori i lawr yn dra annysgwyliadwy. Claddwyd ei weddillion yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. C. Jones, ac yn yr eglwys gan yr offeiriad. Gadawodd i alaru ar ei ol briod a chwech o blant, heblaw perthynasau ereill.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

Mrs. A. G. Jones, Broniestyn, Aberdar.